

Rhan C - Gweinyddu'r bleidlais

Refferendwm ar aelodaeth y DU
o'r Undeb Ewropeaidd:
canllawiau i Swyddogion Cyfrif

Cyhoeddwyd Ionawr 2016 (diweddarwyd Mai 2016)

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol benodol; defnyddir 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid	Rhif paragraff
Mai 2016	Diweddarwyd i ddangos y ddeddfwriaeth derfynol (gan gynnwys cadarnhau dyddiad y bleidlais) a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif a gadarnhawyd, canllawiau a roddwyd mewn bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol ac i gynnwys cyfeirnodau deddfwriaethol	
Mai 2016	Ychwanegu cyfeirnod i'r gofyniad i hysbysu rhai pleidleiswyr absennol o'u hawl awtomatig i bleidlais absennol ar gyfer y refferendwm	3.8-3.10
	Ychwanegu cyfeiriad at bwysigrwydd sicrhau bod cofrestrau gorsaf bleidleisio yn gyfan a chywir	4.25

Cynnwys

1	Ymgysylltu ag ymgyrchwyr	2
	Defnyddio ystafelloedd cyhoeddus am ddim	3
	Briffiadau	4
	Rhoi gwybodaeth am brosesau'r refferendwm	4
	Anghenion mynediad ymgeiswyr	4
2	Asiantiaid yn y refferendwm.....	5
	Yr asiant refferendwm	5
	Asiantiaid eraill	5
	Rhoi pleidleisiau post	5
	Agor pleidleisiau post	6
	Y bleidlais.....	6
	Y cyfrif	6
3	Paratoi hysbysiadau, cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio.....	8
	Llunio a chyhoeddi hysbysiadau.....	8
	Cyfieithu a fformatau hysbysiadau	8
	Hysbysiad o refferendwm	9
	Hysbysiad o bleidlais absennol i rai etholwyr.....	9
	Hysbysiad pleidleisio	10
	Paratoi cardiau pleidleisio.....	11
	Dosbarthu cardiau pleidleisio	12
	Paratoi papurau pleidleisio	13
	Y 'marc swyddogol'	14
	Rhifau papurau pleidleisio a'r marc adnabod unigryw	14
	Argraffu papurau pleidleisio.....	15
	Diogelwch papurau pleidleisio.....	16
4	Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio	17
	Diwedd y cyfnod pleidleisio	17
	Trefnu gorsafoedd pleidleisio	18
	Cyfarpar a deunyddiau gorsafoedd pleidleisio.....	19
	Dyrannu papurau pleidleisio	21
	Cofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau pleidleiswyr absennol	22
	Rhestrau rhif cyfatebol.....	22
	Pacedi ar gyfer papurau pleidleisio post a ddsberthir i orsafoedd pleidleisio.....	23

Cofnodlyfr gorsafodd pleidleisio.....	24
Hysbysiadau gorsafodd pleidleisio	24

1 Ymgysylltu ag ymgyrchwyr

1.1 Gall unrhyw un ymgyrchu dros ganlyniad penodol yn y refferendwm ar yr amod nad yw'n gwario mwy na £10,000. Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gwario mwy na £10,000 gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel 'cyfranogwr a ganiateir' (a elwir yn 'ymgyrchwyr refferendwm')¹. Gall ymgyrchwyr cofrestredig hefyd wneud cais i'r Comisiwn i fod yn grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig. Gall y Comisiwn benodi grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer pob ochr i'r refferendwm neu ar gyfer un ochr yn unig. Mae'r Comisiwn wedi penderfynnu dynodi y ddau brif ymgyrchydd yn Refferendwm ye UE, gan ddewis 'The In Campaign Ltd' i fod yn brif ymgyrchydd ar gyfer canlyniad 'Aros' a 'Vote Leave' ar gyfer canlyniad 'Gadael'. Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r broses ddynodi a phapurau o ran penderfyniad y Comisiwn a chopïau o'r holl geisiadau a wnaed gan bob sefydliad a wnaeth gais ar gael ar [wefan y Comisiwn](#)².

1.2 Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau a all gofrestru'n ymgyrchwyr refferendwm:

- unigolyn sy'n preswyllo yn y DU neu wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol Gibraltar
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu blaid wleidyddol a sefydlwyd yn Gibraltar
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol neu ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU

1.3 Gallwch weld y gofrestr o ymgyrchwyr refferendwm ar [wefan y Comisiwn](#).

1.4 Ar ôl cofrestru, mae gan ymgyrchwyr refferendwm yr hawl i gael copïau o'r gofrestr etholwyr, yn ogystal ag unrhyw ddiweddariadau a wneir drwy unrhyw hysbysiad o newid, ar ôl gwneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol³.

1.5 Ceir cyfyngiadau cyfreithiol llym ar ddefnyddio'r gofrestr a dim ond at ddibenion y refferendwm a rheoli rhoddion y gall ymgyrchwyr refferendwm ei defnyddio. Fel gydag unrhyw un sy'n gofyn am gopi o'r gofrestr, os mai chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech nodi'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth a geir ynddi, yn ogystal â'r cosbau posibl am ei chamddefnyddio. Gallai unrhyw un y canfyddir ei fod wedi torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholwyr wynebu dirwy ddiderfyn yng Nghymru a Lloegr neu ddirwy o hyd at £5,000 yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi datblygu ffurflenni i ymgyrchwyr eu defnyddio i ofyn am gopiâu o'r [gofrestr etholwyr](#) a'r [rhestrau o bleidleiswyr absennol](#).

1.7 Mae gan ymgyrchwyr refferendwm yr hawl hefyd i benodi asiant refferendwm ar gyfer pob ardal bleidleisio⁴. Rhaid i ymgyrchwyr refferendwm gofrestru rhywun yn 'berson cyfrifol'. Caiff y person hwn benodi asiantiaid refferendwm, yn ogystal â bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrchydd refferendwm yn cydymffurfio â'r rolau ynglŷn â gwariant a rhoddion.


1.8 Ar ôl iddo gael ei benodi, bydd yr asiant refferendwm yn gallu bod yn bresennol mewn gweithrediadau etholiadol penodol a phenodi asiantiaid eraill i fod yn bresennol ar adeg agor y pleidleisiau post, y bleidlais a'r cyfrif. Rhoddir rhagor o wybodaeth am benodi asiantiaid a'r hyn y gallant fod yn bresennol ynddo yn y bennod nesaf.



Ceir canllawiau i ymgyrchwyr refferendwm ar wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/cymru/i-am-a/party-or-campaigner/campaigners-in-referendums.

Defnyddio ystafelloedd cyhoeddus am ddim

1.9 Yng Nghymru, yr Alban a Lloegr, mae gan bersonau a awdurdodwyd gan brif ymgyrchydd dynodedig hawl i ddefnyddio ystafelloedd cyhoeddus ac ysgolion i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus am ddim, ond mae'n rhaid iddynt dalu am unrhyw dreuliau megis gwresogi, goleuo a glanhau⁵.



I gael mwy o wybodaeth am hawl ymgyrchwyr yn y refferendwm, gweler [canllawiau'r Comisiwn i ymgyrchwyr](#), sy'n cynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau, gwariant a gofynion adrodd a'u hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol.

Briffiadau

1.10 Dylech gynnig sesiwn friffio i ymgyrchwyr refferendwm lleol ac unrhyw asiantiaid refferendwm sydd wedi cael eu penodi yn eich ardal bleidleisio. Mewn sesiynau o'r fath gallwch roi wybodaeth am eich trefniadau lleol, megis dosbarthu pleidleisiau post a'u hagar, y bleidlais a'r broses dilysu a chyfrif.

Rhoi gwybodaeth am brosesau'r refferendwm

1.11 Gan weithio gyda'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol fel y bo'n briodol, dylech sicrhau bod ymgyrchwyr yn y refferendwm yn cael mynediad at wybodaeth am drefniadau lleol.

1.12 Bydd trefniadau lleol yn cynnwys gwybodaeth am ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau prosesau allweddol y refferendwm, gan gynnwys y canlynol:

- dosbarthu ac agor pleidleisiau post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

1.13 Dylai pa ddull bynnag a ddefnyddiwch i ledaenu'r wybodaeth sicrhau y gall ymgyrchwyr refferendwm a'u hasiantiaid gael gafael ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn hawdd er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y refferendwm.

Anghenion mynediad ymgeiswyr

1.14 Dylech gofio y bydd gan ymgyrchwyr refferendwm a'u hasiantiaid anghenion mynediad penodol o bosibl, ac felly efallai y bydd angen unrhyw wybodaeth neu ganllawiau a baratoir ar ffurf print bras neu fformat arall, megis Braille neu sain, neu mewn iaith arall heblaw Saesneg (neu, yng Nghymru, mewn iaith heblaw Saesneg a Chymraeg).

2 Asiantiaid yn y refferendwm

Yr asiant refferendwm

2.1 Caiff pob ymgyrchydd refferendwm benodi un asiant refferendwm ar gyfer pob ardal bleidleisio. Caiff y 'person cyfrifol', neu berson a awdurdodir yn ysgrifenedig ganddo neu ganddi, benodi asiant refferendwm ar gyfer eich ardal bleidleisio drwy gyflwyno hysbysiad o benodiad i chi erbyn canol dydd ar 31 Mai 2016⁶.

2.2 Rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig, gan nodi enw a chyfeiriad cartref neu fusnes yr ymgyrchydd refferendwm a'r asiant refferendwm. Rhaid iddo gael ei lofnodi gan y 'person cyfrifol' neu rywun a awdurdodir yn ysgrifenedig ganddo neu ganddi. Mae [hysbysiad templed ar gyfer penodi asiantiaid refferendwm](#) ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.3 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael yr hysbysiad o benodiad asiant refferendwm, rhaid i chi gyflwyno hysbysiad cyhoeddus o enw a chyfeiriad yr asiant refferendwm, yn ogystal ag enw'r ymgyrchydd cofrestredig⁷.

Asiantiaid eraill

2.4 Gall asiant refferendwm benodi asiantau i arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r cyfrif. Chi sy'n gyfrifol am dderbyn yr hysbysiadau o benodiad ar gyfer yr asiantiaid hyn⁸.



Am ragor o fanylion ynglŷn â rôl yr asiantiaid hyn, gweler [canllawiau'r Comisiwn i ymgyrchwyr](#), sy'n ymdrin â phenodi asiantiaid a'u presenoldeb mewn digwyddiadau etholiadol allweddol.

2.5 Rhaid i chi sicrhau y caiff pob asiant penodedig gopi o'r gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrinachedd [agor pleidleisiau post](#), a'r [bleidlais](#) a'r [cyfrif](#)⁹, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn. Mae fersiynau dwyieithog ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer Swyddogion Cyfrif yng Nghymru i'w rhoi i'r asiantiaid hynny a benodir ar gyfer [y broses o agor y pleidleisiau post](#), [y bleidlais](#) a'r [cyfrif](#).

Rhoi pleidleisiau post

2.6 Yng Ngogledd Iwerddon yn unig, gall asiantiaid refferendwm fynychu digwyddiad rhoi/anfon pleidleisiau pos a gallant benodi un neu fyw o

asiantiaid i arsylwi rhoi'r pleidleisiau post. Bydd y Swyddog Cyfri yn nodi'r nifer o asiantiaid sydd â hawl i fynychu'r digwyddiad a bydd y nifer yma'r un peth ar gyfer pob asiant refferendwm. Mae'n rhaid i'r asiant refferendwm rhoi hysbysiad yn ysgrifenedig o'r penodiad, gan nodi enw a chyfeiriad yr asiant(iaid), cyn yr amser a bennir ar gyfer rhoi'r papurau pleidleisio post.

Agor pleidleisiau post

2.7 Yn ôl y gyfraith, caniateir i asiantau pleidleisio drwy'r post arsylwi ar y broses o agor blwch pleidleisio pleidleiswyr drwy'r post, agor pleidleisiau post a ddychwelwyd a chadarnhau llofnodion a dyddiadau geni a nodwyd ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd¹⁰. Rhaid i chi gael hysbysiad ysgrifenedig o enw a chyfeiriad unrhyw asiantiaid pleidleisio drwy'r post cyn dechrau unrhyw sesiwn benodol y mae'r asiantiaid yn dymuno bod yn bresennol ynddi¹¹. Mae [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio drwy'r post](#) ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.8 Rhaid i chi roi o leiaf 48 awr o rybudd i asiantiaid refferendwm o amser a lleoliad unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post a nifer yr asiantiaid y gellir eu penodi i fod yn bresennol ym mhob sesiwn agor¹².

Y bleidlais

2.9 Mae gan asiantiaid pleidleisio yn ôl y gyfraith yr hawl i gael mynediad i orsafoedd pleidleisio at ddiben canfod achos o gam-bersonadu. Gallant hefyd arsylwi ar y gweithdrefnau i'w dilyn y tu mewn i orsaf bleidleisio¹³.

2.10 Rhaid i chi gael eich hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw asiantiaid pleidleisio a benodwyd heb fod yn hwyrach na 16 Mehefin 2016¹⁴. Rhaid i'r hysbysiad o benodiad fod yn ysgrifenedig a rhoi enw a chyfeiriad y person (neu'r personau) a benodwyd. Mae [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant pleidleisio](#) ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.11 Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i orsaf bleidleisio neu orsafoedd pleidleisio penodol, neu bob gorsaf bleidleisio o fewn yr ardal bleidleisio.

2.12 Gellir penodi'r un asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith, dim ond un asiant pleidleisio y gellir caniatáu iddo gael mynediad i orsaf bleidleisio ar yr un pryd ar ran yr un ymgyrchydd refferendwm¹⁵.

Y cyfrif

2.13 Gall asiant refferendwm benodi asiantiaid cyfrif i arsylwi ar y prosesau dilysu a chyfrif¹⁶. Rhaid i chi gael eich hysbysu'n ysgrifenedig o benodiad asiantiaid cyfrif o heb fod yn hwyrach na 16 Mehefin 2016¹⁷. Rhaid i'r hysbysiad o benodiad fod yn ysgrifenedig a rhoi enw a chyfeiriad y person (neu'r personau) a benodwyd. Mae [ffurflen ar gyfer rhoi hysbysiad o benodiad asiant cyfrif](#) ar gael ar wefan y Comisiwn.

2.14 Rhaid i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i asiantiaid cyfrif a benodwyd o'r amser a'r lleoliad lle y bydd y prosesau dilysu a chyfrif yn dechrau cael eu cynnal¹⁸.

2.15 Yn ôl y gyfraith, caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr asiantiaid cyfrif. Rhaid i'r nifer y gellir eu penodi gan bob asiant refferendwm fod yr un peth ac, oni bai bod amgylchiadau arbennig, ni chânt fod yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif y papurau pleidleisio) â nifer y asiantiaid refferendwm ar gyfer yr ardal bleidleisio¹⁹.

2.16 Wrth benderfynu ar yr uchafswm o asiantiaid cyfrif, dylai pob asiant refferendwm, hyd y gellir, gael caniatâd i benodi digon o asiantiaid cyfrif fel y gellir craffu'n llawn ac yn briodol ar y prosesau dilysu a chyfrif. Fodd bynnag, dylech ystyried unrhyw oblygiadau o ran iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoliadau tân ar gyfer y lleoliad dilysu a chyfrif pleidleisiau, wrth benderfynu ar yr uchafswm o asiantiaid cyfrif.



I gael manylion ynglŷn â phwy a all fod yn bresennol yn ystod prosesau dilysu a chyfrif, gweler [Rhan E: Dilysu a chyfrif y pleidleisiau](#).

2.17 Dim ond un o'r asiantiaid cyfrif ar gyfer pob asiant refferendwm sydd â'r hawl i gael ei ddynodi'n asiant sy'n gallu gofyn am ailgyfrif y pleidleisiau ar ddiwedd y cyfrif neu eu hailgyfrif eto. Rhaid i ddynodiadau o'r fath gael eu gwneud ar yr adeg y cewch eich hysbysu am benodiad yr asiant cyfrif²⁰. Mae'r ffurflen ar gyfer [hysbysiad o benodiad asiantiaid cyfrif](#) sydd ar gael ar wefan y Comisiwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer nodi unrhyw ddynodiad o'r fath ar y ffurflen.

3 Paratoi hysbysiadau, cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio

Llunio a chyhoeddi hysbysiadau

3.1 Rhaid i chi gyhoeddi hysbysiadau drwy eu gosod mewn man amlwg yn yr ardal bleidleisio. Dylai hyn gynnwys swyddfeydd awdurdodau lleol, hysbysfyrddau, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill. Gellir hefyd gyflwyno'r hysbysiadau mewn modd arall ag y gwelwch yn addas.

3.2 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn pryd er mwyn iddynt bleidleisio, dylech sicrhau bod gwybodaeth am y bleidlais, gan gynnwys yr hysbysiad o refferendwm a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis drwy wefan yr awdurdod lleol.

3.3 Dylech sicrhau bod gennych brosesau cadarn ar gyfer darllen proflenni ar waith er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wallau ar hysbysiadau.



Gweler [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#) i gael canllawiau mwy cyffredinol ar gyfleu gwybodaeth i etholwyr.

Cyfieithu a fformatau hysbysiadau

3.4 Mae'n ofynnol i chi sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyfieithu neu eu darparu mewn fformat arall, lle y credwch ei bod yn briodol gwneud hynny²¹. Cewch eu paratoi:

- mewn Braille
- mewn ieithoedd heblaw am Saesneg (neu Gymraeg a Saesneg yng Nghymru)
- drwy ddefnyddio lluniau
- mewn fformat sain
- drwy ddefnyddio unrhyw ffordd arall o wneud y wybodaeth yn hygyrch

3.5 Ni ellir paratoi'r papurau pleidleisio mewn unrhyw iaith na fformat arall²². Fodd bynnag, rhaid i'r copi wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio sydd i'w arddangos mewn gorsafoedd pleidleisio gynnwys y cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wedi'u hargraffu ar frig y papur, a gellir cyfieithu'r geiriau hyn i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg²³.

Hysbysiad o refferendwm



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo bod yn rhaid i'r hysbysiad o refferendwm gael ei gyhoeddi ar 17 Mai 2016.

3.6 Rhaid i'r hysbysiad gynnwys²⁴:

- dyddiad y bleidlais
- erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r ceisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys dirprwyon brys ym Mhrydain Fawr) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y refferendwm

3.7 Dylai'r hysbysiad o refferendwm hefyd gynnwys erbyn pa ddyddiad mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y refferendwm. Mae [templed o hysbysiad o refferendwm](#) y gall Swyddogion Cyfrif ei ddefnyddio ar gael gan y Prif Swyddog Cyfrif ar wefan y Comisiwn.

Hysbysiad o bleidlais absennol i rai etholwyr

3.8 Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad refferendwm, mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon hysbysiad at²⁵:

- Pleidleiswyr post cyfnod penodol, neu amhenodol (gweler isod ar gyfer etholwyr tramor) - i'w cynghori gan eu bod yn pleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiadau Senedd y DU y byddant hefyd yn pleidleisio drwy ddirprwy yn refferendwm yr UE. Nid yw'r gofyniad i hysbysu pleidleiswyr dirprwy yn berthnasol i'r rheiny sydd wedi gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yn y refferendwm yn unig
- Arglwyddi tramor – gyda phleidlais absennol ar gyfer cyfnod penodol neu amhenodol - i'w cynghori gan eu bod yn pleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol a/neu Senedd Ewrop y byddant hefyd yn derbyn pleidlais drwy'r post neu byddant yn pleidleisio drwy ddirprwy (beth bynnag fo'r achos) yn y refferendwm.

3.9 Wrth baratoi eich gohebiaeth i bleidleiswyr drwy ddirprwy, efallai bydd y geiriad canlynol o ddefnydd i chi:

"Hysbysiad o bleidlais ddirprwy yn Refferendwm yr UE

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi, gan eich bod yn pleidleisio drwy ddirprwy mew etholiadau senedd y DU y byddwch hefyd yn cael pleidlais ddirprwy yn Refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016.

Eich dirprwy penodedig yw [\[rhowch fanylion y dirprwy\]](#).

Os hoffech wneud benodi rhywun arall fel eich dirprwy neu ganslo eich pleidlais ddirprwy, cysylltwch â ni nawr i gael mwy o wybodaeth. Gallwch un ai e-bostio [\[rhowch y cyfeiriad ebost\]](#) neu ffoniwch [\[rhowch y rhif ffôn\]](#). Yn ôl y gyfraith, gall canslo neu newid pwy sy'n mynd i fod yn ddirprwy i chi ond gael eu prosesu mewn da bryd ar gyfer y refferendwm os byddant yn cael eu derbyn erbyn **5pm ar 8 Mehefin 2016**.

Os hoffech bleidleisio drwy'r post yn lle, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yw 5pm ar 8 Mehefin hefyd. Gallwch lawrlwytho ffurflen gais pleidlais bost o www.fymhleidlaisi.co.uk."

3.10 Ble mae gofyn i chi anfon hysbysiad i arglwyddi tramor, gallwch ddefnyddi'r geiriad uchod, gan ei addasu i ddangos y bydd ganddynt bleidlais absennol yn y refferendwm gan fod ganddynt bleidlais absennol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a/neu Senedd Ewrop. Dylai'r geiriad hefyd gael ei addasu i ddangos trefniadau penodol yr arglwydd tramor.

Hysbysiad pleidleisio

3.11 Mae'n ofynnol i chi gyhoeddi [hysbysiad pleidleisio ar gyfer y refferendwm](#) ar 1 Mehefin 2016 fan bellaf²⁶. Rhaid i'r hysbysiad o'r bleidlais nodi'r diwrnod a'r oriau a bennir ar gyfer y bleidlais a'r cwestiwn a fydd yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Hysbysiasd o leoliad y gorsaf foedd pleidleisio a disgrifiad o bleidleiswyr

3.12 Heb fod yn hwyrach na'r adeg cyhoeddi'r hysbysiad pleidleisio, rhaid i chi hefyd gyhoeddi hysbysiasd o'r canlynol²⁷:

- lleoliad pob gorsaf bleidleisio
- disgrifiad o'r pleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno

3.13 Rhaid i chi roi copi o'r hysbysiasd o leoliad gorsaf foedd pleidleisio a disgrifiadau o bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno i bob asiant refferendwm a benodwyd ar gyfer eich ardal bleidleisio mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad o'r wybodaeth hon²⁸. Dylech hefyd fod yn barod i sicrhau bod yr hysbysiasdau hyn ar gael i unrhyw arsylwyr achrededig ar gais.

Paratoi cardiau pleidleisio

3.14 Rhaid i gardiau pleidleisio ddilyn y ffurf ragnodedig a chynnwys yr holl elfennau a nodir yn rheolau'r refferendwm²⁹. Mae'r ffurflenni rhagnodedig yn Atodlen 4 Rheoliadau Refferndwm yr Undeb Ewropeaidd (Cynnal) 2016.

3.15 Yn achos etholwr anhysbys, dylid hepgor enw a chyfeiriad yr etholwr anhysbys³⁰.

3.16 Bydd angen i chi anfon data'ch cerdyn pleidleisio i'ch argraffwyr.

3.17 Os ydych yn gosod y gwaith o baratoi'r cardiau pleidleisio ar gontract allanol, dylech sicrhau bod eich meddalwedd yn gallu llunio ffeil data y gall eich argraffwyr ei defnyddio i baratoi'r deunyddiau yn unol â'r fanyleb sydd ei hangen. Ar gam cynnar yn eich trafodaethau â chyflenwyr dylech nodi ym mha fformat y byddwch yn cyflenwi'r data ac ym mha fformat y byddant yn anfon unrhyw broflenni atoch, a dylai hyn gael ei nodi yn eich manyleb a'ch contract.

3.18 Dylech brofi'r broses drwy anfon data enghreifftiol i'r argraffwyr cyn i'r data 'go iawn' gael eu cyflwyno. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i fersiwn cyn proflen gael ei ddatblygu, fel y bydd yn amlwg ble y dylai pob rhan o'r data ymddangos ar y cerdyn pleidleisio.

3.19 Dylech hefyd gydgyssylltu â'ch enw cyswllt yn y Post Brenhinol ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod gennych drwyddedau priodol ar waith a bod y cerdyn pleidleisio yn bodloni gofynion dosbarthu penodol.

3.20 Er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt dylech roi proses ar gyfer darllen proflenni cardiau pleidleisio ar waith, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r deunydd sy'n cael ei baratoi mewn gwirionedd, a fydd yn tynnu sylw os bydd unrhyw rai o'r proflenni a gymeradwywyd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad. Yn benodol, dylech sicrhau bod aelod o'ch staff yn bresennol pan fydd y cardiau pleidleisio yn cael eu hargraffu er mwyn cadarnhau nad oes unrhyw wallau a'u bod yn cael eu hargraffu yn unol â'r fanyleb sydd ei hangen. Os ydych wedi gosod y gwaith argraffu ar gontract allanol, dylid cynnal trafodaethau i hwyluso'r gwiriadau hyn a sut y câi unrhyw sypiau eraill o gardiau pleidleisio eu paratoi ar adeg cyd-drafod y contract a dylai hynny gael ei adlewyrchu ynddo.

3.21 Rydym wedi cynhyrchu [taflen ffeithiau prawf](#) ddarllen y gallwch ei defnyddio i'ch helpu i sicrhau bod y broses i gyd o ansawdd.

3.22 Ym Mhrydain Fawr, rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dau hysbysiad refferendwm interim o newid cyn cyhoeddi'r hysbysiad refferendwm terfynol o newid ar 16 Mehefin 2016³¹. Mae'r hysbysuadau hyn yn helpu i sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu'n brydlon i'r etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais i gofrestru yn agos i'r dyddiad cau cofrestru.

3.23 Rhaid i'r hysbysiad interim cyntaf o newid gael ei gyhoeddi ar 25 Mai 2016. Rhaid i'r ail hysbysiad interim gael ei gyhoeddi rhwng dydd Iau 26 Mai a dydd Mercher 15 Mehefin (cynwysedig) ac argymhellir i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi'r hysbysiad hyn rhwng 2 Mehefin ac 8 Mehefin (cynwysedig). Mae'r ffenestr hon a argymhellir ar gyfer cyhoeddi wedi ei chytuno gyda'r Grŵp Darparu Refferendwm yr UE ac mae wedi'i greu i fuddio etholwyr a rhoi hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i sicrhau eu bod nhw – drwy weithio gyda'u cyflenwyr – yn gallu defnyddio'r hysbysiad yn effeithiol yn ymarferol, yn enwedig i gefnogi rhoi cardiau pleidleisio i etholwyr sydd newydd gofrestru.



Mae'r ddogfen [dyddiadau cofrestru](#) yn gosod y dyddiad cau gwneud cais a phenderfynu ar gyfer hysbysiadau interim a'r hysbysiad terfynol o newid ar gyfer y refferendwm.

3.24 Dylai diweddariad o'r data cofrestru sy'n deillio o bob un o'r hysbysiadau o newid gael ei anfon at eich argraffwyr mor fuan â phosibl er mwyn ei gwneud yn bosibl i gardiau pleidleisio gael eu paratoi ar gyfer etholwyr newydd.



Ceir rhagor o wybodaeth am hysbysiadau interim yn [Rhan 4 – cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#) o ganllawiau'r Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.



Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â rheoli contractwyr a chyflenwyr yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

3.25 Dylai data cofrestru etholiadol a ddelir gan gontractwyr gael eu dinistrio mor fuan â phosibl ar ôl y diwrnod pleidleisio. Os nad yw wedi'i gynnwys yn y contract, dylid paratoi ymgymeriad ysgrifenedig i gontractwyr ei lofnodi yn cadarnhau hyn. Dylai nodi bod y contractwr yn deall na ellir datgelu gwybodaeth o'r gofrestr etholwyr lawn ar unrhyw adeg, gan gadarnhau na fyddant yn datgelu data i unrhyw barti heb awdurdod ac, ar ôl y refferendwm, y byddant yn dychwelyd unrhyw ddisgiau a chofnodion papur a roddwyd iddynt ac yn dinistrio unrhyw gopiâu electronig neu bapur o'r data mewn ffordd ddiogel.

Dosbarthu cardiau pleidleisio



Cyfarwyddyd

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo bod Swyddogion Cyfrif yn sicrhau y caiff cardiau pleidleisio eu dosbarthu i etholwyr o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith yn dechrau o'r diwrnod ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o refferendwm (h.y. rhwng dydd Mercher 18 Mai a dydd Mawrth 24 Mai).

3.26 Gellir dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw, drwy'r post neu drwy ryw ddull arall a bennir gennych fel y dull mwyaf priodol.

Dosbarthu â llaw

3.27 Os penderfynwch ddosbarthu cardiau pleidleisio â llaw dylech gynllunio sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylech benodi digon o staff i sicrhau y gellir dosbarthu'r holl gardiau pleidleisio i etholwyr o fewn y cyfnod rhagnodedig. Dylai'ch cyfarwyddiadau i staff sy'n dosbarthu cardiau pleidleisio nodi'n glir erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol iddynt fod wedi dosbarthu pob cerdyn pleidleisio.

3.28 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses ddosbarthu, gyda'r nod o sicrhau bod cardiau pleidleisio wedi cael eu dosbarthu drwy'r ardal bleidleisio gyfan ac yn unol â'r amserlen. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i staff dosbarthu lenwi taflenni cofnodi a threfnu i oruchwylwyr gynnal hapwiriadau.

Dosbarthu drwy'r post

3.29 Gallwch ddefnyddio'r Post Brenhinol neu unrhyw gwmni dosbarthu masnachol arall i ddosbarthu'r cardiau pleidleisio. Os ydych yn dosbarthu cardiau pleidleisio drwy'r post, dylech gydgysylltu â'ch darparwr gwasanaethau post i gytuno ar amserlen ar gyfer dosbarthu a chael unrhyw brawf postio a ddarperir gan y cwmni.

3.30 Dylech hefyd roi trefniadau ar waith i fonitro'r broses o ddosbarthu cardiau pleidleisio, gyda'r nod o sicrhau eu bod wedi cael eu dosbarthu drwy'r ardal bleidleisio gyfan ac yn unol â'r amserlen. Os oes modd, dylech roi trefniadau ar waith i olrhain y broses ddosbarthu er mwyn helpu i ymateb i unrhyw ymholiadau gan etholwyr.

3.31 Dylai'ch gwaith cynllunio wrth gefn ymdrin â sut y byddech yn dosbarthu unrhyw gardiau pleidleisio pe na bai'r Post Brenhinol neu'r cwmni dosbarthu masnachol a gontractiwyd gennych yn gallu dosbarthu'r cardiau pleidleisio, er enghraifft, oherwydd gweithredu diwydiannol.

3.32 Rhaid i gerdyn pleidleisio gael ei anfon i gyfeiriad cymwys yr etholwr neu, yn achos dirprwy, i gyfeiriad y dirprwy fel y'i dangosir yn y rhestr o ddirprwyon³². Rhaid i gerdyn pleidleisio etholwr dienw gael ei anfon mewn prif amlen³³.

Paratoi papurau pleidleisio



Cyfarwyddyd

Rhaid i bapurau pleidleisio gael eu paratoi ar y ffurf a bennir gan y Prif Swyddog Cyfrif.

3.33 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi paratoi papur pleidleisio enghreifftiol sy'n barod i'w argraffu sy'n nodi blaen a chefn y papur pleidleisio yn union fel y mae'n rhaid i chi ei atgynhyrchu.



Cyfarwyddyd

Rhaid i bapurau pleidleisio arferol fod yn wyn; rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd fod yn binc.

Y 'marc swyddogol'

3.34 Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol ychwanegu marc diogelwch priodol – y 'marc swyddogol' – at y papur pleidleisio³⁴. Dylai'r marc fod yn unigryw ac nid oes rhaid iddo gynnwys tyllu wedi'i ychwanegu ar adeg dosbarthu'r papur pleidleisio, ond gellir defnyddio offer stampio o hyd er mwyn creu marciau swyddogol wedi'i dyllu. Gallai fod yn arwyddlun wedi'i argraffu neu farc neu ddyfais argraffu arbennig megis dyfrnod. Dylai fod modd ei weld ar flaen y papur pleidleisio fel y gellir ei weld heb orfod troi'r papur pleidleisio drosodd.

3.35 Yn ôl y gyfraith, gall y marc swyddogol fod yr un fath ar gyfer pob papur pleidleisio yn y refferendwm neu gellir defnyddio marciau swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn y refferendwm³⁵, er enghraifft, un ar gyfer pleidleisiau post a'r llall ar gyfer papurau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

3.36 Caiff y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol roi arweiniad neu gyfarwyddyd i chi mewn perthynas â'r marc swyddogol i'w ddefnyddio yn eich ardal bleidleisio neu yn y rhanbarth etholiadol cyfan, neu nodi bod y marc swyddogol yn cynnwys nodweddion penodol.

Rhifau papurau pleidleisio a'r marc adnabod unigryw



Cyfarwyddyd

Rhaid i rifau papurau pleidleisio gynnwys rhagddodiad sy'n cynnwys hyd at dri nod alffa wedi cael eu pennu ar gyfer pob ardal bleidleisio.

3.37 Dylai rhifau papurau pleidleisio redeg yn olynol, ond nid oes rhaid iddynt ddechrau yn '1'.

3.38 Gall y marc adnabod unigryw gynnwys llythrennau a rhifau a gall ailadrodd rhif y papur pleidleisio gyda rhagddodiad neu ôl-ddodiad. Hefyd, gall marc adnabod unigryw fod yn god bar ond nid oes rhaid iddo fod. Nid yw'r un peth â'r marc swyddogol.

3.39 O ran y marc adnabod:

- dylai fod y unigryw i bob papur pleidleisio
- rhaid iddo gael ei argraffu ar gefn y papur pleidleisio

Argraffu papurau pleidleisio



Cyfarwyddyd

Gan ystyried nifer yr etholwyr yn yr ardal bleidleisio, rhaid argraffu o leiaf 110% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisiau a all fod eu hangen yn yr ardal bleidleisio.

3.40 Dylech ddechrau argraffu papurau pleidleisio mor fuan â phosibl. Gan bod rheolau'r refferendwm sy'n cynnwys ffurf y papur pleidleisio wedi cael eu cadarnhau bellach, gallwch gychwyn argraffu cyn gynted â bod y proflenni terfynol wedi cael eu cymeradwyo.

3.41 Dylech roi prosesau darllen proflenni cadarn ar waith, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cadarnhau'r papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu hargraffu, a fydd yn tynnu sylw os bydd unrhyw rai o'r proflenni a gymeradwywyd wedi cael eu newid drwy gamgymeriad.

3.42 Pan fyddwch yn darllen proflen o bapurau pleidleisio, dylech gadarnhau'r canlynol:

- mae'r holl fanylion ar y papur pleidleisio wedi'u sillafu'n gywir
- cymharwch y papur pleidleisio â'r papur pleidleisio enghreifftiol er mwyn sicrhau bod yr holl fanylion wedi cael eu hatgynhyrchu'n gywir
- mae'r papurau pleidleisio wedi cael eu torri i'r maint cywir

3.43 Ar ôl i chi dderbyn y papurau pleidleisio wedi'u hargraffu, dylech gynnal gwiriad olaf cyn i unrhyw bapurau pleidleisio gael eu dosbarthu naill ai mewn sesiwn dosbarthu pleidlais bost neu eu darparu mewn gorsaf bleidleisio. Dylid gwneud hyn drwy wirio'r papur pleidleisio cyntaf a'r un olaf o leiaf ym mhob llyfr a thrwy gadarnhau bod rhifau papurau pleidleisio ym mhob llyfr neu becyn yn rhedeg yn olynol.



Ceir canllawiau cyffredinol ar reoli contractwyr a chyflenwyr ac ar fonitro eu gwaith yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

3.44 Dylech gymryd camau i sicrhau y gellir argraffu papurau pleidleisio ychwanegol ar fyr rybudd os bydd angen.

3.45 Ceir canllawiau ar ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio ym mharagraff **4.21** isod.

Diogelwch papurau pleidleisio

3.46 Ar ôl i'r marc swyddogol gael ei argraffu ar eich papurau pleidleisio, maent yn 'fyw' i bob diben. Ni waeth a ydych wedi gosod y gwaith argraffu ar gontract allanol neu a ydych yn argraffu'n fewnol, er mwyn sicrhau y gall fod gan bleidleiswyr hyder yn y broses, dylech sicrhau diogelwch papurau pleidleisio wrth iddynt gael eu paratoi a'u storio. Dylai eich trefniadau diogelwch atal pobl rhag gweld na defnyddio'r papurau pleidleisio heb awdurdod ar bob cam o'r broses gynhyrchu a storio rhwng argraffu a'r bleidlais.

4 Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio


4.1 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi paratoi [llawlyfr i orsafoedd pleidleisio](#) sy'n ymdrin â'r gweithdrefnau pleidleisio'n fanwl, pwy all a phwy na all bleidleisio a'r hyn y dylech ei ddisgwyl ar y diwrnod pleidleisio.

4.2 Nid yw'r canllawiau a geir yn y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio wedi cael eu hatgynhyrchu yma. Yn lle hynny, mae'r rhan hon o'n canllawiau'n canolbwyntio ar y gwaith paratoi y bydd angen i chi ei wneud cyn y diwrnod pleidleisio.

Diwedd y cyfnod pleidleisio

4.3 Caiff pleidleiswyr sydd yn yr orsaf bleidleisio am 10pm neu sy'n aros y tu allan i'r orsaf bleidleisio, at ddiben pleidleisio, wneud cais i gael papur pleidleisio³⁶.

4.4 Dylai gwaith cynllunio da a staffio hyblyg sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl y bydd ciwiau mewn gorsafoedd pleidleisio. Fel rhan o'ch gwaith cynllunio dylech ystyried lle y gall ciwiau godi a sicrhau bod trefniadau ar waith gennych i allu ymateb os bydd ciwiau yn ymffurfio. Dylech sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio yn monitro'r nifer a bleidleisiodd drwy'r dydd a chyflwyno adroddiadau cynnydd i arolygwyr gorsafoedd pleidleisio, a'ch bod yn cael eich hysbysu os oes gwybodaeth sy'n awgrymu risg y bydd ciw ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, bydd angen o hyd i chi fod yn barod i ymdrin ag unrhyw giwiau pe baent yn codi. Dylech ystyried hefyd cynnwys eich Pwynt Cyswllt Unigol yn yr Heddlu mewn trefniadau cynllunio i ymdrin â chwiwiau posibl ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, fel y gall eich helpu i reoli ciwiau os bydd angen.



Ceir rhagor o ganllawiau ar drefniadau staffio hyblyg mewn gorsafoedd pleidleisio a hyfforddiant perthnasol staff fel y gallant gynnal rolau ei gilydd i'r graddau ag y caniatâ'r gyfraith yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.5 Bydd y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio yn manylu ar y prosesau sydd i'w dilyn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, gan gynnwys sut i ymdrin â phleidleiswyr sy'n sefyll mewn ciw am 10pm.


Tynnu 'hunlun' mewn gorsafoedd pleidleisio

4.6 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd

rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, boed hynny'n fwriadol ai peidio, ein cyngor yw na ddylech ganiatáu i neb dynnu llun y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

4.7 Dylech sicrhau bod staff ym mhob gorsaf bleidleisio yn ymwybodol o'r canllawiau hyn. Efallai y dylech hefyd ystyried arddangos hysbysiad y tu mewn i orsafoedd pleidleisio er mwyn nodi'n glir na chaniateir unrhyw fath o ffotograffiaeth (gan gynnwys tynnu lluniau ar ffonau symudol). Efallai y dylech hefyd ystyried a fyddwch yn caniatáu defnyddio ffonau symudol mewn gorsafoedd pleidleisio ac a ddylech osod arwyddion sy'n gwahardd yn benodol y defnydd o ffonau symudol y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

Trefnu gorsafoedd pleidleisio



Ceir canllawiau ar nodi gorsafoedd pleidleisio addas yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.8 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y caiff gorsafoedd pleidleisio eu gosod gan ystyried y pleidleisiwr. Yn benodol, dylid ystyried anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau gwahanol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y caiff yr holl ddodrefn a chyfarpar angenrheidiol eu gosod, yn ogystal â ble y dylid arddangos hysbysadau, ynghyd â gosod arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac arwyddion allanol.

4.9 Dylech ddatblygu cynlluniau ar gyfer diwyg pob un o'r gorsafoedd pleidleisio y gellir eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n gosod y gorsafoedd pleidleisio. Dylech ystyried y llif, gan gynnwys sut y bydd y pleidleisiwr yn symud drwy'r broses bleidleisio o'r adeg y daw i mewn i'r orsaf bleidleisio i'r adeg y bydd yn ei gadael.


4.10 Dylai pwy bynnag sy'n gyfrifol am osod gorsafoedd pleidleisio gael cyfarwyddyd ynglŷn â sut i wneud hynny a'r hyn a allai'r diwyg ei gyflawni

4.11 Os na ddisgwylir i staff gorsafoedd pleidleisio osod gorsafoedd pleidleisio, dylent gael eu cyfarwyddo i gadarnhau bod yr orsaf bleidleisio wedi'i gosod yn gywir, a dylent gyfeirio at unrhyw gynlluniau diwyg a baratowyd gennych a rhestr wirio gosod gorsaf bleidleisio yn y llawlyfr i orsafoedd pleidleisio wrth wneud hynny. Mae'r llawlyfr i orsafoedd pleidleisio hefyd yn ymdrin â lleoli cyfarpar ac arddangos hysbysadau, ac yn rhoi enghreifftiau o ddiwyg ar gyfer ystafell lle mae un orsaf bleidleisio ac ystafell lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio.



Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.12 Gellir defnyddio ymweliadau arolygwyr gorsafoedd pleidleisio i gadarnhau diwyg gorsaf bleidleisio a sicrhau bod yr holl hysbysiadau yn parhau i gael eu harddangos yn gywir drwy'r diwrnod pleidleisio cyfan.



Ceir rhagor o fanylion ar rôl arolygwyr gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Cyfarpar a deunyddiau gorsafoedd pleidleisio

4.13 Rhaid i chi ddarparu deunyddiau penodol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio³⁷:

- blwch/blychau pleidleisio
- papurau pleidleisio (gan gynnwys papurau pleidleisio a gyflwynwyd)
- deunyddiau sy'n galluogi pleidleiswyr i farcio eu papurau pleidleisio (pensiliau neu peniau yn ymarferol - efallai y dylech ddarparu llinyn er mwyn atodi'r pensiliau/peniau i'r bythau pleidleisio)
- rhan berthnasol o'r gofrestr
- y rhestrau o bleidleiswyr absennol - rhestrau o bleidleiswyr drwy'r post, dirprwyon pleidleiswyr a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post
- ffurflen i gofnodi manylion etholwyr sydd wedi cael papurau pleidleisio ar ôl i wall clercol gael ei gywiro (y gellir ei hatodi i gofrestr yr orsaf bleidleisio)
- y rhestr rhif cyfatebol
- fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio
- copi llaw enghreifftiol wedi'i chwyddo o'r papur pleidleisio
- dyfais bleidleisio at ddefnydd pobl ddall neu bobl â golwg rhannol
- cyfrifon papurau pleidleisio
- datganiad gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
- rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd
- rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- hysbysiad canllawiau i bleidleiswyr (i'w arddangos y tu mewn a'r tu allan i bob gorsaf bleidleisio)
- hysbysiad cyfarwyddiadau i bleidleiswyr (i'w arddangos y tu mewn i'r bwth pleidleisio)
- sgriniau pleidleisio
- pecynnau, gyda seliau, i osod ynddynt yr eitemau a ddychwelwyd i chi, megis papurau pleidleisio post a ddychwelir i'r orsaf bleidleisio, a deunydd pecynnu ar gyfer dogfennaeth y refferendwm ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

4.14 At hynny dylech ddarparu'r canlynol:

- copi o'r gofynion ynglŷn â chyfrinachedd
- amlenni, gyda seliau, i osod ynddynt unrhyw bapurau pleidleisio a ddsbarthwyd ond nad yw'r etholwr wedi'u gosod yn y blwch pleidleisio
- ffurflen neu restr i gofnodi etholwyr a farciwyd yn bleidleiswyr drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post
- papur nodiadau at ddefnydd staff yr orsaf bleidleisio
- eitemau deunydd ysgrifennu fel sy'n ofynnol, e.e. clipiau papur, pinnau bawd, tac glynu, tâp selio
- sachau plastig ar gyfer dychwelyd deunydd ysgrifennu ac offer i'r lleoliad dilysu
- amlenni ar gyfer creu pecynnau



Cyfarwyddyd

Rhaid peidio â darparu llyfryn gwybodaeth y Comisiwn i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio.

Fodd bynnag, mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn cydnabod y bydd staff gorsafoedd pleidleisio yn wynebu cwestiynau ynglŷn â diben y refferendwm a sut i fwrw eu pleidlais. Fel yn achos unrhyw etholiad, bydd yn hanfodol bod staff gorsafoedd pleidleisio yn y refferendwm yn niwtral ac nad ydynt yn dangos unrhyw duedd o gwbl ac yn cael eu hystyried felly. Er y bydd yn gwbl briodol i staff esbonio i bleidleiswyr sut y dylid marcio papur pleidleisio yn y refferendwm (gyda chroes) ceir agweddau ar destun y refferendwm lle y byddai'n amhriodol i staff gorsafoedd pleidleisio wneud sylwadau. Bydd yn bwysig hefyd sicrhau bod y wybodaeth a roddir i etholwyr mewn gorsafoedd pleidleisio am y refferendwm yn gyson drwy'r DU gyfan.

Mae'r llawlyfr gorsaf bleidleisio ([Atodiad 10](#)) yn cynnwys cwestiynau cyffredin sy'n gosod yr hyn y dylai ac na ddylai staff gorsafoedd pleidleisio ei ddweud o dan yr amgylchiadau hyn.

4.15 Dylech gadarnhau bod cyfarpar pob gorsaf bleidleisio yn addas at y diben a bod gennyh ddigon ohono, yn enwedig os bydd niferoedd mawr yn pleidleisio o ystyried cyd-destun penodol y refferendwm hwn.

4.16 Dylech ystyried a fydd angen i chi ddarparu blychau pleidleisio ychwanegol i Swyddogion Llywyddu o bosibl, gan na fydd un blwch pleidleisio bob amser yn ddigon i nifer y papurau pleidleisio a allai gael eu dosbarthu mewn gorsaf bleidleisio benodol. Rhaid i bob blwch pleidleisio i'w ddefnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio gael ei selio gan staff gorsafoedd pleidleisio ar ddechrau'r bleidlais.

4.17 Dylech fod wedi paratoi cyfarpar a deunyddiau'ch gorsafoedd pleidleisio mewn da bryd cyn y diwrnod pleidleisio, naill ai i'w dosbarthu i orsafoedd pleidleisio neu i'w casglu gan Swyddogion Llywyddu.

4.18 Fel rhan o'ch gwerthusiad o addasrwydd eich gorsafoedd pleidleisio byddwch eisoes wedi ystyried materion hygyrchedd y tu mewn a'r tu allan i bob un o'ch gorsafoedd pleidleisio. Dylech sicrhau y caiff unrhyw gyfarpar ychwanegol yr ydych wedi'i nodi sy'n ofynnol er mwyn gwneud yr orsaf bleidleisio yn hygyrch ei ddsbarthu a'i osod mewn da bryd cyn i'r bleidlais agor.

4.19 Os oes dolen sain wedi'i gosod mewn gorsaf bleidleisio, dylid ei defnyddio lle bynnag y bo modd er mwyn gwneud y broses etholiadol yn hygyrch i bleidleiswyr sydd â cholled clyw. Byddai angen rhoi hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ynglŷn â sut i ddefnyddio'r rhain yn y sesiwn frifffio.

4.20 Rhaid i chi roi copi o'r [gofynion cyfrinachedd](#) perthnasol i bob aelod o staff gorsafoedd pleidleisio³⁸.

Dyrannu papurau pleidleisio



Cyfarwyddyd

Rhaid i 100% o gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a all fod eu hangen mewn gorsaf bleidleisio benodol ei ddyrannu i'r orsaf bleidleisio honno.

4.21 Wrth ddyrannu papurau pleidleisio i orsafoedd pleidleisio, sicrhewch fod y rhifau ar y papurau pleidleisio a ddyrennir i bob gorsaf bleidleisio yn rhedeg yn olynol er mwyn osgoi unrhyw broblemau wrth gwblhau'r rhestr rhif cyfatebol neu'r cyfrif papurau pleidleisio.

4.22 Rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd hefyd gael eu darparu i Swyddogion Llywyddu³⁹. Dylai papurau pleidleisio a gyflwynwyd gael eu darparu i orsafoedd pleidleisio mewn amlen wedi'i seilio gyda chyfarwyddiadau sy'n nodi mai dim ond o dan amgylchiadau a ragnodir y dylid agor yr amlen a dosbarthu'r papurau pleidleisio ynddi, a dylid rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny. Gall hyn helpu i osgoi rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gam.

4.23 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod staff pob gorsaf bleidleisio yn deall bod amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd, a'u bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn a pha brosesau y bydd yn ofynnol iddynt eu dilyn wrth eu dosbarthu. Ymdrinnir â'r amgylchiadau lle y gellir dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny yn y [llawlyfr i orsafoedd pleidleisio](#).



Ceir rhagor o ganllawiau ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

Cofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau pleidleiswyr absennol

4.24 Rhaid i chi ddarparu'r rhan briodol o'r gofrestr i bob Swyddog Llywyddu ar gyfer ei (g)orsaf bleidleisio ac, ym Mhrydain Fawr, y rhestrau pleidleisio absennol priodol⁴⁰. Dylai staff gorsafoedd pleidleisio fod wedi cael hyfforddiant ar y marcwyr etholfraint amrywiol a fydd yn ymddangos ar y gofrestr.

4.25 Gall cofrestrau gorsafoedd pleidleisio gael eu hargraffu unwaith y bydd yr hysbysiad refferendwm terfynol o newid wedi cael ei gyhoeddi ar 16 Mehefin 2016. Dylech wirio cofrestrau gorsafoedd pleidleisio i sicrhau eu bod yn gyfan a chywir ar gyfer pob gosaf bleidleisio..

4.26 Dylai gweithdrefnau gael eu rhoi ar waith i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i gofrestrau gorsafoedd pleidleisio a rhestrau o ddirprwyon ar ôl y cyfnod hwnnw sy'n deillio o newidiadau o ganlyniad i gywiro gwallau clercol neu benderfyniadau'r llys ar apeliadau cofrestru ac, ym Mhrydain Fawr, cymeradwyo ceisiadau i benodi dirprwyon brys.

4.27 P'un a gaiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud cyn y diwrnod pleidleisio neu ar y diwrnod pleidleisio ei hun, dylech fod wedi pennu dull o gyfleu'r wybodaeth berthnasol i Swyddogion Llywyddu, a gallwch wneud hynny naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

4.28 Lle mae gwall clercol wedi cael ei gywiro a bod yr etholwr perthnasol yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio ac yn gwneud cais am bapur pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ddsbarthu papur pleidleisio yn y ffordd arferol⁴¹. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd wneud cofnod ysgrifenedig o'r etholwyr y rhoddwyd papur pleidleisio iddo ar ôl newid y gofrestr oherwydd gwall clercol⁴². Dylai'r cofnod hwn gynnwys enw a rhif yr etholwr. Er mwyn cynorthwyo Swyddogion Llywyddu, dylech atodi dalen ychwanegol at gofrestrau gorsafoedd pleidleisio er mwyn rhoi lle iddynt gofnodi newidiadau o'r fath.

4.29 Ym Mhrydain Fawr, dylai prosesau tebyg hefyd gael eu datblygu i gyfleu ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon pleidleiswyr o ganlyniad i geisiadau i benodi dirprwyon brys.

4.30 Lle bydd rhywun yn gwneud cwyn i staff gorsaf bleidleisio sy'n awgrymu y dylai fod ar y gofrestr etholwyr, dylai'r Swyddog Llywyddu hysbysu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am hynny mor fuan ag sy'n ymarferol. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol bydd angen rhoi systemau cyfathrebu addas ar waith rhwng Swyddogion Llywyddu a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Rhestrau rhif cyfatebol

4.31 Mae dau fath o restr rhif cyfatebol: mae'r naill restr, a ddefnyddir yn ystod sesiynau dosbarthu pleidleisiau post, yn cynnwys rhif a marciau adnabod unigryw pob papur pleidleisio a baratoir, yn ogystal â rhifau etholwr

pleidleiswyr drwy'r post; ac mae'r llall, a ddefnyddir mewn gorsafoedd pleidleisio, yn cynnwys rhifau papurau pleidleisio a cholofn i ychwanegu rhifau etholwr pleidleiswyr y dosbarthwyd y papurau pleidleisio hynny iddynt.

4.32 Rhaid i chi baratoi a darparu rhestr rhif cyfatebol ar gyfer pob gorsaf bleidleisio⁴³. Dogfen ragnodedig yw'r rhestr rhif cyfatebol a gellir ei gweld yn yr atodiad i reolau'r refferendwm.

Pacedi ar gyfer papurau pleidleisio post a ddosberthir i orsafoedd pleidleisio

4.33 Gall pleidleiswyr drwy'r post ym Mhrydain Fawr ddychwelyd eu pleidlais bost â llaw i unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal bleidleisio⁴⁴.

4.34 Dylai staff gorsafoedd pleidleisio gael eu briffio'n briodol er mwyn nodi pa bleidleisiau post a all gael eu dychwelyd i'w gorsaf bleidleisio.



Ceir rhagor o fanylion ar hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

4.35 Dylech ddarparu pecynnau ar gyfer pleidleisiau post a dderbyniwyd i orsafoedd pleidleisio. Dylai nifer y pecynnau a'r math o becynnau adlewyrchu'r posibilrwydd o niferoedd mawr yn pleidleisio, a allai olygu bod nifer fawr o bobl yn dychwelyd eu pleidlais bost i orsafoedd pleidleisio. Dylid cadw cofnod o'r holl becynnau o'r fath fel y bydd modd cyfrif am bob un ohonynt. Dylai'r pecynnau fod wedi'u labelu'n glir fel pecynnau sy'n cynnwys pleidleisiau post. Dylai'r labeli gynnwys enw a nod adnabod yr orsaf bleidleisio. Dylech sicrhau bod modd selio'r pecynnau'n ddiogel. Mae gan asiantiaid pleidleisio'r hawl i atodi eu sêl i becynnau wedi'u selio cyn iddynt gael eu symud o'r orsaf bleidleisio ac felly rhaid caniatáu iddynt wneud hynny⁴⁵.

4.36 Dylech bwysleisio i Swyddogion Llywyddu pa mor bwysig yw cynnal diogelwch pleidleisiau post a ddychwelir i orsafoedd pleidleisio drwy eu cyfarwyddo i osod unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd yn y pecynnau a ddarparwyd ar unwaith a sicrhau bod y pecynnau wedi'u stori'n ddiogel drwy gydol y dydd.

4.37 Dylech drefnu i bleidleisiau post gael eu casglu o orsafoedd pleidleisio drwy gydol y dydd gan y bydd hyn yn helpu i leihau'r nifer y bydd angen ymdrin â hwy ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Gall arolygwyr gorsafoedd pleidleisio gyflawni'r ddyletswydd hon. Dylech sicrhau bod prosesau ar waith i gynnal trywydd archwilio clir a sicrhau diogelwch pecynnau o bleidleisiau post a gasglwyd wrth iddynt gael eu cludo.

Cofnodlyfr gorsafoedd pleidleisio

4.38 Dylech baratoi cofnodlyfr gorsaf bleidleisio er mwyn i staff gorsafoedd pleidleisio ei ddefnyddio i gofnodi unrhyw broblemau neu anghysonderau. Yn benodol, dylid hysbysu staff gorsafoedd pleidleisio i ddefnyddio'r cofnodlyfr hwn i gofnodi unrhyw beth a all helpu i esbonio unrhyw broblemau ymddangosiadol gyda'r cyfrif papurau pleidleisio ar adeg dilysu – er enghraifft, os gwelwyd pleidleisiwr yn gadael yr orsaf bleidleisio â phapur pleidleisio. Dylech ystyried cyfarwyddo Swyddogion Llywyddu i gadw'r cofnodlyfr a'r cyfrif papurau pleidleisio gyda'i gilydd wrth drosglwyddo'r papurau pleidleisio i'r cyfrif.

Hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio

4.39 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r hysbysiad 'Canllawiau i bleidleiswyr' gael ei arddangos y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r hysbysiad 'Cyfarwyddiadau i bleidleiswyr' gael ei arddangos ym mhob bwth pleidleisio⁴⁶.

-
- ¹ S117 PPERA 2000
- ² S105(1)(b) PPERA 2000 fel diwygiwyd gan Para 2 Atodlen 1 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- ³ S105 a 106(4)(c)(ii) PPERA 2000 fel diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- ⁴ S105 a 106(4)(c)(ii) PPERA 2000 fel diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- ⁵ S110 PPERA 2000
- ⁶ Para 15(1) a 16(2) Atodlen 1 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- ⁷ Para 17 Atodlen 1 Deddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015
- ⁸ Rheol 23 Rheoliadau (Cynnal) Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2016 (“Rheoliadau Cynnal”), Rheolau 69 a 83 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (“Rheoliadau (CLI) 2001”) fel y diwygiwyd gan Reolau 22 a 39 Atodlen 3 Rheoliadau Cynnal
- ⁹ Rheol 24 Rheoliadau Cynnal, Rheol 70 Rheoliadau (CLI) 2001
- ¹⁰ Rheolau 68, 69 a 83 Rheoliadau (CLI) 2001
- ¹¹ Rheol 69 Rheoliadau (CLI) 2001
- ¹² Rheol 80 Rheoliadau (CLI) 2001
- ¹³ Rheol 26 Rheoliadau Cynnal
- ¹⁴ Rheol 23 Rheoliadau Cynnal
- ¹⁵ Rheol 26(3) Rheoliadau Cynnal
- ¹⁶ Rheol 45(4)(d) Rheoliadau Cynnal
- ¹⁷ Rheol 23 Rheoliadau Cynnal
- ¹⁸ Rheol 45(2) Rheoliadau Cynnal
- ¹⁹ Rheol 23(4) Rheoliadau Cynnal
- ²⁰ Rheol 23(2) Rheoliadau Cynnal
- ²¹ S199B DCB 1983 fel y diwygiwyd gan reol 45 Atodlen 1 Rheoliadau Cynnal
- ²² Rheol 10 Rheoliadau Cynnal
- ²³ S199B(6)(b) DCB 1983 fel y diwygiwyd gan reol 45 Atodlen 1 Rheoliadau Cynnal
- ²⁴ Rheol 8 Rheoliadau Cynnal
- ²⁵ Rheoliadau Cynnal Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, Rheoliad 21
- ²⁶ Rheol 16 Rheoliadau Cynnal
- ²⁷ Rheol 16(3) Rheoliadau Cynnal
- ²⁸ Rheol 16(4) Rheoliadau Cynnal
- ²⁹ Rheolau 20(4) a (5) Rheoliadau Cynnal
- ³⁰ Gweler ffurflenni rhagnodedig ar gyfer cardiau pleidleisio
- ³¹ Gweler s13AB, 13B a 13BA RPA 1983 fel y diwygiwyd gan Reolau 4 a 5 Atodlen 1 Rheoliadau Cynnal
- ³² Rheol 20(3) Rheoliadau Cynnal
- ³³ Rheol 20(5) Rheoliadau Cynnal
- ³⁴ Rheol 12(1) Rheoliadau Cynnal
- ³⁵ Rheol 12(3) Rheoliadau Cynnal
- ³⁶ Rheol 34(3) Rheoliadau Cynnal
- ³⁷ Gweler rheolau 18, 22, 35, 36, 38 a 42 y Rheoliadau Cynnal
- ³⁸ Rheol 24 Rheoliadau Cynnal
- ³⁹ Rheolau 37, 38 Rheoliadau Cynnal
- ⁴⁰ Rheol 22 (3) Rheoliadau Cynnal, Rheol 62 Rheoliadau (CLI) 2001
- ⁴¹ Rheol 31 Rheoliadau Cynnal
- ⁴² Rheol 42 Rheoliadau Cynnal
- ⁴³ Rheolau 11 a 22 Rheoliadau Cynnal
- ⁴⁴ Rheol 46(3) Rheoliadau Cynnal, Rheol 79 Rheoliadau (CLI) 2001
- ⁴⁵ Rheol 44 (3)(b) Rheoliadau Cynnal
- ⁴⁶ Rheol 22(6) a (7) Rheoliadau Cynnal